# Llywodraeth Cymru
# Cynnig Lleoliad Prosiect Ymchwil mewn Ymarfer

## Adolygiad Tystiolaeth Syndrom Tourette - Cyffredinrwydd, Patrymau Demograffig, a Chydafiacheddau

## Crynodeb o'r prosiect

Mae hon yn interniaeth dri mis a gynhelir ar draws Tîm Polisi Niwroamrywiaeth ac Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd Llywodraeth Cymru. Bydd yn adolygu ac yn syntheseiddio'r dystiolaeth bresennol ar Syndrom Tourette a chyflyrau eraill sy'n ymwneud â ticiau. Bydd y gwaith yn archwilio cyfraddau cyffredinrwydd, patrymau demograffig, a chydafiacheddau hysbys, gan fanteisio ar ymchwil academaidd a chlinigol i ddarparu trosolwg cynhwysfawr gyda'r bwriad o gefnogi datblygiad polisi niwrowahaniaeth yng Nghymru.

Drwy gydol y lleoliad, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru i gynhyrchu allbwn ymchwil o ansawdd uchel. Bydd y gwaith yn cyflwyno cyfleoedd i ddatblygu sgiliau y tu hwnt i'r amgylchedd academaidd, gan gynnwys trwy gymhwyso gwybodaeth ddadansoddol o fewn cyd-destun polisi, ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, a chyfleu canfyddiadau i ddiwallu anghenion cynulleidfa darged amrywiol.

## Gwybodaeth am Leoliadau Ymchwil mewn Ymarfer Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru ac mae'n gyfrifol am yr economi, addysg, trafnidiaeth, iechyd a GIG Cymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd yng Nghymru.

Mae lleoliad yn Llywodraeth Cymru yn gyfle unigryw i weithio ochr yn ochr â swyddogion polisi ac ymchwilwyr, gan gymhwyso eich sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi byw. Cewch gyfle i ddatblygu ystod o sgiliau ymchwil tra'n dyfnhau eich dealltwriaeth o sut mae tystiolaeth yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

Yn ystod cyfnod y lleoliad, byddwch yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau o broffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Mae Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn darparu cyngor dadansoddol uchel ei ansawdd a thystiolaeth annibynnol i lywio penderfyniadau allweddol ym maes polisi. Mae eu gwaith yn cefnogi'r cylch polisi llawn—o ddeall a datblygu hyd at weithredu, monitro a

gwerthuso. Bydd myfyrwyr ar leoliadau hefyd yn cyfrannu at ymdrechion ehangach i gefnogi cyd-weithwyr ym maes polisi i lywio a chyflawni polisi effeithiol.

## Y Prosiect: Adolygiad Tystiolaeth Syndrom Tourette - Cyffredinrwydd, Patrymau Demograffig, a Chydafiacheddau

Mae Syndrom Tourette yn anhwylder niwroddatblygiadol a nodweddir gan ticiau llais a motor, fel arfer yn dod i'r amlwg pan fydd plentyn rhwng 5 a 7 oed, yn cyrraedd penllanw pan fydd y plentyn rhwng 8 a 12 oed, ac yn aml yn cilio yn ystod llencyndod hwyr. Mae'n aml yn cyd-ddigwydd gydag awtistiaeth ac ADHD.

Er bod Syndrom Tourette yn un o dri chyflwr niwroamrywiol a flaenoriaethir yn Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth Cymru, mae cyfyngiadau yn y data a gesglir ar hyn o bryd wedi arwain at ddiffyg dealltwriaeth o ran cyffredinrwydd ac amrywiad ar draws grwpiau demograffig ar lefel leol.

O'r herwydd, nod y prosiect hwn yw adolygu'r sylfaen dystiolaeth ehangach ynghylch Syndrom Tourette ac anhwylderau ticiau cysylltiedig er mwyn helpu i amcangyfrif cyffredinrwydd a phatrymau demograffig yng Nghymru.

Bydd yr adolygiad yn syntheseiddio ymchwil academaidd a chlinigol bresennol er mwyn archwilio sut mae Syndrom Tourette yn cael ei ddiffinio yn ymarferol ac mewn perthynas â chyflyrau eraill sy’n ymwneud â ticiau, asesu cyfraddau cyffredinrwydd cyffredinol ac amrywiadau mewn cyffredinrwydd ar draws grwpiau demograffig, archwilio cydafiacheddau cyffredin a nodir, ac adrodd ar rwystrau a nodir sy'n atal casglu data ac adrodd arnynt.

Wrth lunio'r adolygiad tystiolaeth, disgwylir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus:

- Yn ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i gael dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi sy'n ymwneud â Syndrom Tourette yng Nghymru.
- Yn nodi ac yn adolygu’n systematig dystiolaeth o ystod o ffynonellau domestig a rhyngwladol, gan gynnwys astudiaethau academaidd, papurau clinigol a chyhoeddiadau ymchwil y llywodraeth.
- Gweithio ochr yn ochr â phroffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth i gynnal a chyflwyno'r ymchwil yn unol â’i safonau proffesiynol
- Cyfleu canfyddiadau ymchwil mewn cyflwyniad i gyd-weithwyr polisi perthnasol a rhanddeiliaid ar ddiwedd y lleoliad.

Yr allbwn arfaethedig ar gyfer y prosiect hwn yw adroddiad ymchwil sy'n cydymffurfio ag Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd canfyddiadau'n cael eu defnyddio er mwyn llywio datblygiad polisi a llywio

strategaethau ar gyfer gwell dulliau casglu data, ymwybyddiaeth glinigol, a diagnosis cynnar.

**Pa sgiliau sydd eu hangen arnom?**

Rydym yn croesawu unigolion sy'n gallu dod â'r sgiliau a'r profiad canlynol i'r rôl:

- Y gallu i ddirnad a dehongli gwybodaeth dechnegol gymhleth, ac i gyfleu canfyddiadau o'r wybodaeth hon mewn ffordd glir a hygyrch
- Profiad o gynhyrchu adolygiadau llenyddiaeth o ansawdd uchel, gwerthuso tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau a syntheseiddio'r wybodaeth hon mewn dadansoddiad cadarn a strwythuredig
- Y gallu i weithio ar gyflymder, gan barhau i fod yn drefnus i sicrhau bod gofynion allweddol y prosiect yn cael eu cyflawni i safon uchel o fewn amserlen gyfyngedig
- Sgiliau cyfathrebu cryf, gan gynnwys y gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid o ystod o wahanol gefndiroedd a disgyblaethau

## Amserlenni'r lleoliad

Bydd y lleoliad yn para am gyfnod o 3 mis. Disgwylir i'r lleoliad ddechrau heb fod yn gynharach na mis Ebrill 2026. Bydd y dyddiad dechrau yn cael ei drafod â'r ymgeisydd llwyddiannus ac efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a threuliau

Mae'r cyfle hwn ar agor dim ond i fyfyrwyr a ariennir drwy gynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (a ddyfernir ers mis Hydref 2024) y mae'n ofynnol iddynt gwblhau lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer. Mae'r lleoliad yn ddi-dâl, fodd bynnag, byddwch yn parhau i dderbyn eich ariantal ESRC. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu talu unrhyw gostau adleoli sy'n gysylltiedig â'r lleoliad.

Gellir hawlio costau teithio a chynhaliaeth rhesymol yr eir iddynt wrth gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, yn amodol ar gytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad ac yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau gweithio

Oriau gweithio Llywodraeth Cymru yw 37 awr yr wythnos, 7 awr 24 munud y diwrnod ar gyfartaledd. Gyda chytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad, efallai y byddwch yn gallu gweithio oriau hyblyg yn unol ag arferion Llywodraeth Cymru. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, efallai y bydd y lleoliad hwn ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy, i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, dylech nodi'r oriau gweithio a ffefrir ar y ffurflen gais.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng y cartref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod y lleoliad. Gall hyn newid, gan ddibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio yn cael eu trafod â'r ymgeiswyr llwyddiannus.

## Gofynion cenedligrwydd a fetio diogelwch

I fod yn gymwys ar gyfer y lleoliad hwn yn Llywodraeth Cymru, rhaid bodloni Rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu ymgymryd â lleoliad.

Bydd hi'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus gael eu fetio gan Lywodraeth Cymru (mae hyn yn berthnasol i staff dros dro ynghyd â staff parhaol). Bydd hyn yn cynnwys cwblhau ffurflen gais gwiriad y Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect lleoliad hwn, dyma'r manylion cyswllt:

Ieuan Davies, Pennaeth yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd

Ieuan.davies007@llyw.cymru

Os hoffech wybodaeth am gyfleoedd lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer yn Llywodraeth Cymru, cysylltwch â:

Katy Marrin a James Carey, Cyd-benaethiaid Cynllunio Gweithlu a Safonau Proffesiynol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
PennaethCynllunioGweithluSafonauProffesiynolGSR@llyw.cymru

Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â Lleoliadau Ymchwil mewn Ymarfer, cysylltwch â:

Sian Shepherd yn Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru

esrcrip@bangor.ac.uk